**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-RE-3636-18

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor, Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

18 Hydref 2018

Annwyl John,

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth bellach am safbwynt Llywodraeth Cymru, sef bod drysau ffrynt fflatiau yn dod o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Dyma fater cymhleth, ac rwy'n cytuno bod lle i amheuaeth. Cyfyd yr amheuaeth honno gan fod erthygl 6 o'r Gorchymyn yn nodi nad yw'n gymwys i anheddau, sy'n golygu nad yw ond yn ymdrin â'r hyn a elwir yn 'ardaloedd cyffredin' bloc o fflatiau – cynteddau, grisiau, landins, llwybrau ac yn y blaen. Nid yw'r Gorchymyn yn manylu dim ar sut y mae trin ffiniau rhwng ardaloedd cyffredin a fflatiau (er enghraifft waliau a'r drysau ynddynt).

Wedi dweud hynny, rydym o'r farn bod y ffiniau a'r drysau hynny yn dod o dan y Gorchymyn. Mae dau reswm am hynny.

Yn gyntaf, mewn bloc o fflatiau cyffredin, mae'r ffynonellau sy'n fwyaf tebygol o gychwyn tân, i'w cael o fewn y fflatiau eu hunain. Dylai fod llai o siawns o gael tân yn cychwyn mewn ardal gyffredin. Felly, pwrpas drysau tân wrth fynedfa fflatiau yw i gadw'r adrannau ar wahân, ac i amddiffyn ardaloedd cyffredin (sydd gan amlaf yn cynnwys llwybr i ddianc) petai tân yn dechrau mewn fflat unigol. Mewn geiriau eraill, mae drysau tân o'r fath yn diogelu'r adeilad cyfan rhag tân yn hytrach na fflatiau unigol.

Yn ail, dywed synnwyr cyffredin, bod rhaid i ran o adeilad, fel cyntedd, gael ei ddiffinio wrth gyfeirio at strwythur yr adeilad. Ni allai gynnwys dim ond y lleoedd gwag sydd o fewn y strwythur hwnnw. Os mai dyna'r achos, byddai unrhyw gyfundrefn diogelwch adeiladau yn nonsens llwyr. Felly, mae'n rhaid i ardal gyffredin gynnwys terfynau ffisegol.

Mae'n safbwynt ni'n glir o'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gennym fis diwethaf. Fe anfonwyd y canllaw hwnnw i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru, ac i gynrychiolwyr y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sector rhentu preifat, ac nid oes anghytundeb wedi dod i law gan neb. Dylid nodi bod ein safbwyntiau yn adlewyrchu safbwynt Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân a safbwynt pob un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Er hynny, rwy'n llwyr gydnabod bod y safbwynt yn aneglur. Er enghraifft, gellid dadlau na all drws sy'n eiddo i breswylydd fod yn rhan o'r fangre y mae landlord neu asiant rheoli yn gyfrifol amdano.  Fel y nodwyd gan ein Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn y pwyllgor, nid yw'r mater hwn wedi ei brofi mewn llys erioed, hyd y gwyddom ni.  Felly, mae hyn yn rhywbeth y gallwn anelu at fod yn eglur arno fel rhan o'r gwaith o ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio.

Yn gywir,

Rebecca

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration